YR ATODLEN

Rheoliad 3

DARPARIAETHAU RHEOLIAD Y COMISIWN (EC) RHIF 716/96

# RHAN 1

## DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I WEITHREDWYR LLADD-DAI

| **Darpariaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ("y Rheoliad Comisiwn")** | **Y pwnc** |
|---|---|
| Erthygl 1(2) | Gofyniad bod pennau, organau mewnol a charcasau'n cael eu staenio'n barhaol |
| Erthygl 1(2) | Gofyniad bod deunyddiau a staeniwyd yn cael eu cludo mewn cynwysyddion a seliwyd i hylosgyddion awdurdodedig arbennig neu i weithfeydd rendro |
| Erthygl 1(2) | Gwahardd unrhyw ran o anifail a gigyddwyd o dan y Rheoliad Comisiwn rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl neu anifeiliaid na chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion cosmetig neu fferyllol |
| Erthygl 1(3) | Gofyniad nad oes unrhyw anifail buchol a fwriedir ei fwyta gan bobl yn bresennol mewn lladd-dy pan gigyddir anifeiliaid o dan y Rheoliad Comisiwn |
| Erthygl 1(3) | Gofyniad, pan fydd angen rhoi anifeiliaid sydd i'w cigydda o dan y Rheoliad Comisiwn mewn gwalfeydd cyn eu cigydda, eu bod yn cael eu cadw ar wahân i anifeiliaid buchol eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid |
| Erthygl 1(3) | Gofyniad, os yw'n angenrheidiol storio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gigyddir o dan y Rheoliad Comisiwn, bod yn rhaid storio'r cynhyrchion hynny ar wahân i unrhyw gyfleuster storio a ddefnyddir ar gyfer cig neu gynhyrchion eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid |

# RHAN II

## DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I WEITHREDWYR HYLOSGYDDION NEU WEITHFEYDD PROSESU

| **Darpariaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ("y Rheoliad Comisiwn")** | **Y pwnc** |
|---|---|
| Erthygl 1(2) | Gofyniad bod deunydd a staeniwyd yn cael ei brosesu a'i ddifa |

| **Darpariaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 (“y Rheoliad Comisiwn”)** | **Y pwnc** |
|---|---|
| Erthygl 1(2) | Gwahardd unrhyw ran o anifail a gigyddwyd o dan y Rheoliad Comisiwn rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl neu anifeiliaid na chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion cosmetig neu fferyllol |
| Erthygl 1(3) | Gofyniad, os yw'n angenrheidiol storio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gigyddir o dan y Rheoliad Comisiwn, bod yn rhaid storio'r cynhyrchion hynny ar wahân i unrhyw gyfleuster storio a ddefnyddir ar gyfer cig neu gynhyrchion eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid |